**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:00yb DYDD LLUN, 16 MEDI 2013**

**10:00am MONDAY, 16 SEPTEMBER 2013**

Lleoliad / Location

**SIAMBR ARFON,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR,**
**SAFLE PENRALLT**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS**

**(01286) 679878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 6.9.13

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**CENTRAL LICENSING COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**<u>Plaid Cymru (7)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eddie Dogan Huw Edwards

Annwen Hughes Chris Hughes

W. Tudor Owen Ann Williams

Gethin G. Williams

**<u>Annibynnol/Independent (4)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eryl Jones-Williams Christopher O'Neal

Angela Russell Elfed Williams

**<u>Llais Gwynedd (4)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

Llywarch Bowen Jones Peter Read

Gruffydd Williams Sedd wag / Vacant seat

**<u>Aelod Ex-officio/Ex-officio Member</u>**

Is-gadeirydd y Cyngor/Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar **24.6.2013**, fel rhai cywir.

(copi yma – papur **gwyn**)

**5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

(a) 5 Mehefin 2013
(b) 4 Gorffennaf 2013
(c) 31 Gorffennaf 2013

(copi yma – papur **gwyrdd**)

**6. LLYTHYR GAN CYNGOR DINAS BANGOR – ER TRAFODAETH**

(copi yma – papur **aur**)

# AGENDA

**1. APOLOGIES**

To receive any apologies for absence.

**2. DECLARATION OF PERSONAL CONNECTION**

To receive any declaration of personal interest.

**3. URGENT ITEMS**

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

**4. MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the meeting of this Committee, held on 24 June 2013, be signed as a true record.

(copy herewith – **white** enclosure)

**5. LICENSING SUB-COMMITTEE MINUTES**

To submit, for information, minutes of the Licensing Sub-committee meetings held on the following dates:-

(a) 5 June 2013
(b) 4 July 2013
(c) 31 July 2013

(copy herewith – **green** enclosures)

**6. LETTER RECEIVED FROM BANGOR CITY COUNCIL – FOR DISCUSSION**

(copy herewith – **gold** paper)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 24.06.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Eddie Dogan, Huw Edwards, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Llywarch Bowen Jones, Christopher O'Neal, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Gruffydd Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Aled Davies (Pennaeth Adran Rheoleiddio), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd), Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Chris Hughes

Croeso
Croesawyd y Cynghorydd W. Tudor Owen yn ôl i'r pwyllgor yn dilyn ei lawdriniaeth diweddar.

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd W. Tudor Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2013, fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 22 Chwefror, 8 Mawrth, 27 Mawrth a 22 Ebrill 2013.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**<u>Mater yn Codi – Cadeirio'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Canolog/Cyffredinol</u>**

**PENDERFYNWYD yn ychwanegol at Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol bod y Cynghorydd Peter Read i barhau i gadeirio'r is-bwyllgorau uchod.**

## 6. FFIOEDD A THALIADAU ARFAETHEDIG 2013/14 – ADRAN GWARCHOD Y CYHOEDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig 2013/14 – Adran Gwarchod y Cyhoedd.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu bod llawer o'r ffioedd yn aros yn sefydlog. Maent yn statudol ac felly nid oes unrhyw reolaeth leol tros eu codi ac maent yn cynnwys ffioedd sy'n berthnasol i Ddeddf Gamblo 2005 a Deddf Trwyddedu 2003. Bydd rhai o'r ffioedd arfaethedig yn cynyddu ychydig yn unol â chwyddiant. Nododd mai'r unig ffioedd lle ceir newidiadau arwyddocaol yw –
a) Ffioedd ar gyfer cofrestru person ac eiddo ar gyfer tatwio, tyllu'r corff, electrolysis ac aciwbigo.
b) Ffioedd ar gyfer sefydliadau rhyw
c) Ffioedd ar gyfer marchnadoedd a ffeiriau

Mewn perthynas a tatwio, tyllu'r corff, electrolysis ac aciwbigo, rheolir y gweithgareddau hyn yn unol â darpariaethau Rhan V111, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, adrannau 14 a 15. Mae'r ddeddf yn caniatau i awdurdodau godi "ffioedd yr ystyrir ganddynt yn rhesymol" er mwyn cofrestru personau ac eiddo busnes at ddibenion y gweithgareddau hyn. Prif amcan y cofrestriad yw gwarchod iechyd y cyhoedd ac osgoi trosglwyddo afiechydon heintus. Ni ddylai'r ffioedd a osodir ar gyfer y dibenion hyn fod yn afresymol. Yn y gorffennol, codwyd yr un ffi ar gyfer cofrestru eiddo a phersonau. Gwnaed y penderfyniad gan y swyddogion yn seiliedig ar brofiad blaenorol bod codi ffi fesul person yn afresymol a'i fod yn rhwystro pobl newydd sy'n gweithredu o eiddo busnes rhag cofrestru. Argymhellodd y dylid cynyddu'r ffi ar gyfer tystysgrif cofrestru eiddo o £76 i £100 a gostwng y ffi ar gyfer cofrestru person o £76 i £35.

Nododd y trwyddedir sefydliadau rhyw (siopau rhyw) gan Ran 11, Atodlen 3 ac adran 6, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, Yn y gorffennol, bu i lawer o Awdurdodau Lleol bennu ffioedd cymharol uchel ar gyfer gweinyddu'r cais, adnewyddu neu drosglwyddo'r trwyddedau hyn. Yn ystod 2012/13 'roedd y ffioedd ar gyfer sefydliadau rhyw yng Ngwynedd fel a ganlyn –

- Cais Newydd - £2,972
- Adnewyddu - £1,486
- Trosglwyddo - £1,486

Dengys asesiad o'r costau'n ymwneud â phrosesu'r trwyddedau hyn, bod y ffioedd a godir yn uwch na'r costau i'r gwasanaeth. Datgan Adran 19, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 y gallai Awdurdodau Lleol bennu ffi sy'n rhesymol. O ganlyniad i ddyfarniad

diweddar mewn achos amlwg yn erbyn Cyngor Westminster gan berchenogion saith siop rhyw, ni allai Awdurdodau Lleol barhau i godi ffioedd sy'n uwch na gwir gostau prosesu'r trwyddedau ar gyfer sefydliadau o'r fath. Argymhellodd y dylid gostwng y ffioedd am 2013/14 ar gyfer cyflwyno cais, adnewyddu a throsglwyddo trwydded yn unol â'r union gostau a wynebir gan y Cyngor fel a ganlyn –

- Cais Newydd - £268.07
- Adnewyddu - £268.07
- Trosglwyddo - £268.07

Parthed marchnadoedd a ffeiriau, nododd y swyddog iddynt yn hanesyddol gael eu lleoli mewn rhai ardaloedd yng Ngwynedd, ac mae'n bwysig eu cynnal ac nad yw ffioedd a thaliadau uchel yn eu llesteirio. Fodd bynnag, mae'r costau a wynebir gan y Cyngor mewn perthynas â dyletswyddau casglu arian parod yn ddiogel, trefniadau gwaredu ysbwriel a goruchwylio'r marchnadoedd yn cynyddu. O ganlyniad, argymhellodd y dylid cyflwyno cynnydd o 10% yn y ffioedd ar gyfer stondinau trwyddedig ac achlysurol ynghyd â stondinau ffeiriau. Nododd y cyflwynwyd gostyngiad yn y ffi ar gyfer taliadau a wneir yn flynyddol yn electronig neu drwy daliad banc uniongyrchol, gan fod y costau i'r Cyngor ar gyfer prosesu taliadau o'r fath yn sylweddol is.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ffioedd a'r taliadau am 2013/14.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:45a.m. a daeth i ben am 11.00am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 05.06.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Huw Edwards ac Ann Williams

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Euron Thomas (Swyddog Iechyd Amgylchedd – ar gyfer cais rhif 2) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – STAR KEBAB, 323, STRYD FAWR, BANGOR**

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ar ran Star Kebab, 323 Stryd Fawr, Bangor:** Mr Mhemet Kabadayi (Deilydd y drwydded) a Mr David Farley (Cyfreithiwr)

**Ar ran yr Heddlu:** Yr Arolygydd Neil Thomas, Y Rhingyll Bill Coppack a Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Star Kebab, 323, Stryd Fawr, Bangor i wyro'r drwydded eiddo er caniatau ymestyniad o awr ychwanegol, sef rhwng 23.00 a 03.00 Dydd Sul i Ddydd Iau a rhwng 23.00 a 03.30 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn ar gyfer y gweithgaredd trwyddedig o ddarparu lluniaeth hwyr y nos.

Nododd, ar 12 Ionawr 2012, caniataodd yr is-bwyllgor hwn adolygiad o drwydded yr eiddo gan Heddlu Gogledd Cymru ar sail tystiolaeth o drosedd ac anhrefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan gwsmeriaid yr eiddo. O ganlyniad i'r adolygiad, cwtogwyd oriau gweithgareddau trwyddedig yr eiddo i'r oriau presennol, ynghyd ag ychwanegu amodau ychwanegol parthed darpariaeth teledu cylch cyfyng a goruchwylwyr drysau.

Ar 29 Tachwedd 2012, ystyriodd yr is-bwyllgor hwn Rybuddion o Ddigwyddiadau Tros Dro gan ddeilydd y drwydded i ganiatau ymestyn yr oriau trwyddedig un awr ar 15 achlysur yn ystod Rhagfyr 2012. Cyflwynodd yr heddlu dystiolaeth o drosedd ac anrhefn gan adrodd ar achosion troseddol a diffyg cydymffurfio ag amodau trwydded yr eiddo. Caniatawyd y Rhybuddion Digwyddiadau Tros Dro gan yr is-bwyllgor.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiad i'r cais gan Heddlu Gogledd Cymru ar sail parhad problemau yn ymwneud â'r eiddo a thystiolaeth nad yw deilydd y drwydded yn cydymffurfio â rhai o amodau'r drwydded.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.

ii Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

iii Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau

iv Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

vii. Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi'r cais, nododd cyfreithiwr ar ran deilydd y drwydded y sylwadau canlynol –

- Bod y busnes wedi dioddef yn ddiweddar gyda'r canlyniad y gallai deilydd y drwydded fod allan o fusnes yn y dyfodol agos.
- Yn dilyn adolygu'r drwydded yn Ionawr 2012 fe wnaed nifer o newidiadau i'r drwydded a oedd yn cynnwys cyflogi goruchwyliwr drws sydd wedi gwella'r sefyllfa a hefyd fe uwchraddiwyd y system teledu cylch cyfyng.
- Yn yr un cyfarfod yn Ionawr 2012, cyfeiriwyd at y ffaith y byddai lleihau oriau'r gweithgareddau trwyddedig o awr yn debygol o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- Os y parheir gyda'r oriau sydd ar y drwydded gyfredol yna rhagwelir y bydd yn rhaid i'r eiddo gau. Byddai caniatau'r awr ychwanegol, yn enwedig ar nosweithau Gwener a Sadwrn, yn gallu creu incwm sylweddol i'r busnes a bod galw am hyn ar ôl 02.30.
- Y gofynnwyd i'r heddlu archwilio'r eiddo er derbyn eu cadarnhad bod y newidiadau i'r drwydded wedi eu gweithredu.
- Ar nosweithiau tawel fe gaeeir yr eiddo ynghynt ac felly nid oes angen cyflogi goruchwyliwr ar y drws.
- Bod y cais yn cydymffurfio â'r amcanion trwyddedu.
- Ers cyfarfod o'r is-bwyllgor hwn yn Ionawr 2012, dim ond pump digwyddiad a gymerodd le yn gysylltiedig â'r eiddo a bod tri o'r rhain yn ystod cyfnod prysur y Nadolig.
- Fe gydnabyddodd i'r eiddo agor tu hwnt i'r oriau caniataeedig ar 15 a 16 Medi 2012 ond camddealltwriaeth ar ran deilydd y drwydded oedd hynny.
- Na dderbyniwyd cwynion gan drigolion lleol.
- Bod cyfeiriad yn sylwadau'r heddlu at ffrwgwd tu allan i'r eiddo ond nid oedd yn gysylltiedig â'r eiddo hwn.
- Yn gyffredinol, nid oes perthynas rhy dda wedi bodoli rhwng deilydd y drwydded a'r heddlu yn y gorffennol.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd y Rhingyll Bill Coppack yr adolygwyd y drwydded yn Ionawr 2012 gan yr is-bwyllgor hwn pryd y penderfynwyd caniatau'r adolygiad a diwygio'r drwydded i gynnwys amodau ychwanegol a awgrymwyd gan yr heddlu. Adroddwyd yr adeg hynny ar 18 o droseddau a gyflawnwyd ar neu ger yr eiddo. Nododd bod y cais gerbron heddiw am oriau ychwanegol bob diwrnod o'r wythnos ond nid oes unrhyw gyfeiriad at gyflogi goruchwyliwr drws. Cyfeiriodd at ddigwyddiadau yn gysylltiedig â'r eiddo a oedd yn cynnwys troseddau megis ymosodiadau treisgar. Nid yw'r heddlu yn ystyried y digwyddiadau hyn na methiant i gydymffurfio ag ildio'r teledu cylch cyfyng yn rhai pitw. Nododd i'r eiddo fod yn masnachu ers 10 mlynedd a bod y drwydded gyfredol hyd at 02.00, Dydd Sul i Ddydd Iau a hyd at 02.30 ar nosweithau Gwener a Sadwrn. 'Roedd wedi cymharu'r eiddo hwn gyda eiddo eraill cyffelyb ym Mangor o sabwynt troseddau ac 'roedd y troseddau yn gysylltiedig â'r eiddo hwn yn sylweddol uwch. Nid oes preswylwyr, ar wahân i ddeilydd y drwydded, yn byw yn y rhan hon o'r stryd h.y. mae'n ardal fasnachol. Cyfeiriodd at y ffaith i'r aelod lleol gefnogi sylwadau'r heddlu pan ystyriwyd y cais am adolygu'r drwydded gan yr is-bwyllgor hwn ar 22 Chwefror 2013. 'Roedd yn siomedig nad oedd Cyngor Dinas Bangor wedi cyflwyno sylwadau ar y cais. Mewn perthynas â'r system teledu cylch cyfyng, nododd nad yw'r eiddo wedi cydymffurfio â'r amod rhwng 2005 a 2012 nac ychwaith wedi cydymffurfio â gofynion o ran cael goruchwylwyr ar y drws. 'Roedd diffyg cydymffurfio hefyd ag amodau o ran ysbwriel, rheoli ciwiau a monitro strydoedd cyfagos. Ers cyfarfod o'r is-bwyllgor hwn ar 22 Chwefror 2013, sylwyd bod yr eiddo'n parhau i werthu bwyd ar ôl yr amser cau. Fodd bynnag, tynnodd sylw mai dim ond dau ddigwyddiad o drosedd ac

anhrefn a ddigwyddodd mewn perthynas â'r eiddo rhwng Ionawr ac Awst 2012 ac hefyd dau ddigwyddiad hyd yn hyn yn 2013.

Hysbysodd yr Arolygydd Neil Thomas bod nifer y troseddau wedi cynyddu'n sylweddol yng nghanol y ddinas yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, llynedd gwelwyd lleihad o oddeutu 30% mewn troseddau ym Mangor. Mewn perthynas â'r eiddo dan sylw, cyfeiriodd at y ffaith bod nifer o bobl yn casglu tu fewn a thu allan iddo ac yn achosi trwbwl. Ers Awst 2012, gwelwyd lleihad yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrth-gymdeithasol a.y. yn gysylltiedig â'r eiddo oherwydd y cwtogwyd yr oriau gweithgareddau trwyddedig. Nododd mai fframwaith strategol yr heddlu yw ceisio atal troseddau. 'Roedd o'r farn os y caniateir y cais hwn am wyriad i'r drwydded eiddo, rhagwelai y byddai cynnydd yn nifer y troseddau yn gysylltiedig â'r eiddo ac y dylid gwrthod y cais.

'Roedd yr heddlu'n awyddus i ddangos tystiolaeth pellach o'r digwyddiadau drwy DVD ond nid oedd aelodau'r is-bwyllgor, deilydd y drwydded na'i gyfreithiwr wedi gweld y dystiolaeth honno ymlaen llaw. 'Roedd angen cytundeb yr holl bartion perthnasol i hyn. 'Roedd cyfreithiwr deilydd y drwydded yn gwrthwynebu dangos y DVD ac yn wyneb hynny cytunwyd i beidio ei ddangos.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

O ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, 'roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatau'r cais am y rhesymau canlynol –
a) Y clywyd tystiolaeth gan yr heddlu y digwyddodd 18 trosedd ynghlwm â'r eiddo ac y cafwyd trafferthion o ran derbyn tystiolaeth teledu cylch cyfyng, diffyg cydymffurfio ag amodau o ran ysbwriel, rheoli ciwiau a monitro strydoedd cyfagos.
b) Y derbyniwyd tystiolaeth hefyd bod yr eiddo wedi masnachu tu allan i'r oriau trwyddedig ar 15 a 16 Medi 2012.
c) Y derbyniwyd tystiolaeth nad yw'r eiddo'n cydymffurfio â gofynion o ran cael goruchwylwyr ar y drws.
ch) Fodd bynnag, derbyniodd yr is-bwyllgor dystiolaeth mai dim ond dau ddigwyddiad o drosedd ac anhrefn a ddigwyddodd mewn perthynas â'r eiddo rhwng Ionawr ac Awst 2012 ac hefyd dau ddigwyddiad hyd yn hyn yn 2013.
d) Nododd yr is-bwyllgor bod gan yr eiddo yn y cyfnod rhwng Ionawr ac Awst 2012 oriau agor yr un fath a'r hyn y gofynnir amdano yn y cais dan sylw.
dd) Ni dderbyniodd yr is-bwyllgor dystiolaeth ddigonol bod problemau o ran teledu cylch cyfyng, rheoli drysau a phroblemau hanesyddol eraill yn parhau i fod yn broblemau mewn perthynas â'r eiddo. Yn yr amgylchiadau, nid oedd yr is-bwyllgor yn argyhoeddedig y byddai caniatau'r cais yn debygol o arwain at danseilio unrhyw un o'r amcanion trwyddedu ac felly byddai'n hyrwyddo'r amcanion hyn.

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Star Kebab, 323, Stryd Fawr, Bangor fel a ganlyn –**
**a) Caniatau darparu lluniaeth hwyr y nos (paragraff L) rhwng 23.00 a 03.00 dydd Sul i ddydd Iau a rhwng 23.00 a 03.30 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – REHAB, SGWÂR YR ORSAF, PWLLHELI

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ymgeisydd:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Eraill ar ran yr Heddlu:** Mr Eifion Jones (Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu)

**Ar ran Rehab, Sgwâr yr Orsaf, Pwllheli:** Mr Colin Leadbetter (Deilydd y drwydded)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr John Rees Jones

**Ymddiheuriad:** Yr Arolygydd Mark Armstrong

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded eiddo Rehab, Sgwâr yr Orsaf, Pwllheli yn dilyn methiant yr eiddo mewn tri achlysur o brawf prynu alcohol yn ystod ymgyrchoedd prawf prynu a gynhaliwyd gan yr heddlu rhwng Mai a Hydref 2012. Derbyniodd yr heddlu sawl cwyn o sŵn cerddoriaeth yn hwyr yn y nos gan aelodau'r cyhoedd hefyd yn ystod y cyfnod hwn. Gwneir y cais oherwydd tystiolaeth bod yr amcanion trwyddedu sef diogelu plant rhag niwed ac atal niwsans cyhoeddus, yn cael eu tanseilio.

Mewn perthynas â diogelu plant rhag niwed, nododd y llwyddodd genethod 15 a 16 oed i brynu alcohol yn yr eiddo ar dri achlysur yn olynol rhwng Mai a Hydref 2012 fel rhan o ymgyrch prawf pryniant yr heddlu. Ni ofynnwyd am oedran yr unigolion nac ychwaith am brawf oedran drwy gerdyn adnabod ar y tri achlysur. Yn unol â pholisi gorfodaeth yr heddlu, ar ôl y methiant prawf prynu cyntaf, cynhaliwyd cyfarfod "cam 2" â deilydd y drwydded pryd y cytunwyd ar gamau gweithredu. Saith wythnos yn ddiweddarach, fe fethodd yr eiddo brawf pryniant arall a gan bod hwn yr ail achlysur o fewn tri mis, cytunodd deilydd y drwydded i dderbyn Rhybudd Cau gan yr heddlu, ac o ganlyniad i hynny, caewyd yr eiddo am 72 awr ar 16 Awst 2012. Ar 6 Hydref 2012, gwerthwyd alcohol eto i berson dan oed mewn ymgyrch prawf pryniant. Ar 12 Chwefror 2013, ymddangosodd deilydd y drwydded yn Llys Ynadon Caernarfon ac fe'i cafwyd yn euog o werthu alcohol yn gyson i rai dan 18 oed. Derbyniodd ryddhad amodol am 12 mis ac fe'i gorchmynwyd i dalu £85 mewn costau a £15 gordâl dioddefwr.

Parthed atal niwsans cyhoeddus, nodir yn nhystiolaeth yr heddlu y derbyniwyd chwe galwad gan aelodau'r cyhoedd rhwng Mai 2012 a Mawrth 2013 oherwydd sŵn cerddoriaeth uchel yn hwyr yn y nos. Caniateir cerddoriaeth ar yr eiddo tan 01.00 yn ddyddiol gydag amser cau o 02.00 yn ddyddiol. 'Roedd y cyfan o'r cwynion sŵn a dderbyniodd yr heddlu'n cyfeirio at sŵn cerddoriaeth ar ôl yr oriau a ganiateir ar y drwydded – rhwng 01.08 ac un cwyn mor hwyr â 05.11.

Gofynnai'r heddlu i'r is-bwyllgor ystyried defnyddio ei bwerau i atal trwydded yr eiddo am gyfnod o ddim mwy na thri mis oherwydd methiant deilydd y drwydded dro ar ôl tro i roddi mesurau mewn lle i ddiogelu plant rhag niwed oherwydd achlysuron cyson o werthu alcohol i unigolion dan 18 oed. Awgrymir y byddai atal y drwydded am chwech wythnos yn gyfnod digonol.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, ni dderbyniwyd sylwadau gan yr aelod lleol, Cyngor Tref Pwllheli na'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Derbyniwyd sylwadau gan breswylydd cyfagos yn cefnogi'r adolygiad ac yn cyfeirio at broblemau parhaus a amharwyd arno yn gyson ers 2009. Cwynir am sŵn cerddoriaeth uchel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a nodir bod cwsmeriaid yr eiddo'n yfed ar y stryd er bod y lleoliad yn Leoliad Cyhoeddus Dynodedig lle na chaniateir yfed alcohol. 'Roedd y cwynydd wedi dod a'i gŵyn i sylw Adran Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor. Derbyniwyd hefyd lythyr ac adroddiad gan Swyddog Gwarchod y Cyhoedd, hefyd yn cefnogi'r adolygiad. Cyflwynwyd tystiolaeth ganddo o broblemau sŵn parhaus yn deillio o

gerddoriaeth uchel yn hwyr yn y nos sy'n cefnogi sylwadau'r heddlu. Ymhelaethir ar achlysuron o broblemau sŵn a nodwyd rhwng Gorffennaf 2012 hyd at y presennol. Nodir i Swyddog Gwarchod y Cyhoedd, Swyddog Trwyddedu'r Cyngor a'r Heddlu gynnal trafodaethau yn ystod y cyfnod hwn gyda deilydd y drwydded i geisio datrysiad i'r broblem sŵn. Casglwyd tystiolaeth drwy beiriant monitro sŵn, a chynghorwyd y preswylydd cyfagos i gadw cofnod o'r achlysuron pan oedd y sŵn yn uchel yn hwyr yn y nos. Er y cafwyd sawl trafodaeth a chytundeb gyda deilydd y drwydded i ostwng y sŵn i lefel a gytunwyd i fod yn dderbyniol, nodir bod y problemau sŵn yn parhau hyd at y presennol. Cefnogir cais yr heddlu i atal y drwydded am gyfnod.

Tynnodd sylw'r aelodau at lythyr a dderbyniwyd y diwrnod blaenorol gan gyfreithiwr deilydd y drwydded yn rhoddi sylwadau ar y cais. Nododd Cyfreithiwr y Cyngor y derbyniwyd y llythyr yn hwyr a bod y rheoliadau mewn perthynas â gwrandawiadau trwyddedu yn nodi y dylai'r partion perthnasol gytuno os y dylid ei ystyried. 'Roedd Cydlynydd Trwyddedu'r Cyngor yn siomedig bod y llythyr yn hwyr yn dod i law ac nid oedd yn cytuno gyda rhai o'r sylwadau oedd ynddo. Fodd bynnag, cytunodd y partion perthnasol y dylid ei ystyried fel rhan o'r dystiolaeth.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii) Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii) Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Ar ran yr heddlu, nododd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu mai sail tros y cais am adolygu trwydded yr eiddo yw'r ffaith iddo fethu tri prawf prynu yn olynol a hefyd i ddeilydd y drwydded gael ei erlyn am werthu alcohol i blant dro ar ôl tro, sy'n tanseilio'r amcanion trwyddedu o ddiogelu plant rhag niwed. Yn ogystal, cafwyd sawl galwad yn ymwneud â sŵn yn dod o'r eiddo yn hwyr yn y nos, sy'n tanseilio'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

Ymhelaethodd ar y tri prawf pryniant a gynhaliwyd ar 19 Mai, 7 Mehefin a 6 Hydref 2012. Nododd y gohiriwyd y cais am adolygiad hyd nes y cynhaliwyd yr achos llys. Cyfeiriodd at chwe galwad a dderbyniwyd rhwng Mai 2012 a Mawrth 2013 yn ymwneud â sŵn yn dod o'r eiddo gyda'r amseroedd yn amrywio o 01.08 i 05.11. Mae trwydded presennol yr eiddo'n caniatau cerddoriaeth hyd at 01.00 bob diwrnod o'r wythnos gyda'r eiddo'n cau i'r cyhoedd am 02.00 bob diwrnod o'r wythnos. Erbyn hyn deellir mai rhwng nos Iau a nos Sadwrn mae'r eiddo'n agored ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw'r Adran Iechyd Amgylchedd at y cwynion sŵn a chynhaliwyd cyfarfod gyda deilydd y drwydded diwedd Awst 2012 er ymdrechu i fynd i'r afael â'r cwynion hyn. Nododd mai cais yr heddlu yw bod yr is-bwyllgor yn arfer ei bwerau i atal trwydded yr eiddo am gyfnod o ddim mwy na thri mis ond byddai cyfnod o chwech wythnos yn ddigonol yn yr achos hwn.

Mewn perthynas â llythyr cyfreithiwr deilydd y drwydded, nododd y trafodwyd ei gynnwys ag Adran Gyfreithiol yr Heddlu pryd y cafwyd eglurhad y dylai'r is-bwyllgor ystyried y cais hwn ar wahân i'r dyfarniad llys.

Parthed atal niwsans cyhoeddus, derbyniwyd cwynion gan yr unig berson sy'n byw gerllaw ac 'roedd yn anodd amgyffred os oedd y sŵn wedi effeithio neu'n debygol o effeithio ar bobl eraill. Mae'r cyfreithiwr yn honni nad yw deilydd y drwydded yn gweithredu fel deilydd y drwydded ar

yr adegau pan oedd cerddoriaeth uchel ar ôl i'r eiddo gau. Dim ond ar un o'r achlysuron pan ymwelodd yr heddlu â'r eiddo yn dilyn derbyn cwyn, y datgelodd deilydd y drwydded bod ganddo barti preifat. Honnai'r cyfreithiwr hefyd nad oes tystiolaeth ychwanegol i gadarnhau'r cwynion. Nododd bod y recordiad gan y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd bod sŵn yn deillio o'r eiddo wedi ei ddatgelu i ddeilydd y drwydded yn y cyfarfod yn Awst 2012. Er yn anodd i'w brofi, nid yw'r heddlu'n derbyn nad oedd aelodau'r cyhoedd yn bresennol ar ôl amser cau'r eiddo. Nid yw'n fodlon ynglyn â'r awgrymiad yn y llythyr y cyflwynwyd y cais yn fwriadol er mwyn i ddeilydd y drwydded golli allan ar benwythnos Gŵyl Wakestock. Cyflwynwyd y cais ym Mawrth 2013 ac felly'n dilyn y cyfnod statudol o 28 diwrnod i dderbyn sylwadau fe allai'r gwrandawiad fod wedi ei gynnal dechrau Mai 2013 ond oherwydd amgylchiadau anorfod nid oedd yn bosibl cynnal y gwrandawiad tan heddiw. Pe bu i'r is-bwyllgor gael ei gynnal dechrau Mai 2013 ac i'r is-bwyllgor yr adeg hynny benderfynu atal y drwydded am gyfnod o chwech wythnos, yna byddai'r cyfnod hwnnw trosodd erbyn Gŵyl Wakestock ym mis Gorffennaf. 'Roedd hefyd o'r farn na ddylai bygythiad apêl fod yn rwystr i'r is-bwyllgor. Os bydd y cais yn mynd yn erbyn deilydd y drwydded ac iddo apelio, 'roedd o'r farn na ddylai'r achos ddod gerbron y Barnwr Rhanbarthol Shaw gan iddo wrando ar y cais gwreiddiol. Archwiliwyd yr eiddo ddiwethaf ym Mawrth 2013 ac i ddeilydd y drwydded yr adeg hynny basio'r prawf prynu.

Nododd Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ymweld â'r eiddo y diwrnod blaenorol ac iddynt gyflwyno sylwadau ar y cais. Yn absenoldeb swyddog o'r gwasanaeth, 'roedd y cydlynydd yn fodlon cyflwyno'r sylwadau. Tynnwyd sylw gan y cyfreithiwr na dderbyniwyd y sylwadau o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod i dderbyn sylwadau ac 'roedd angen cytundeb y partion perthnasol os y dylid eu hystyried. Cytunodd y partion perthnasol y dylid ystyried y sylwadau fel a ganlyn –
a) Nid yw'r Asesiad Risg Tân yn addas nac yn ddigonol.
b) Dim Polisi Diogelu Tân na Chynllun Gwacâu Tân
c) Bod gwybodaeth deilydd y drwydded o ymwybyddiaeth diogelwch tân a deddfwriaeth yn wael iawn. Byddai'n argymhelliad iddo ymgymryd ag hyfforddiant pellach.
ch) Bod y nenfwd ar y llawr gwaelod lle mae'r bar wedi ei orchuddio gyda deunydd nad yw'n gwrthsefyll tân – byddai hyn yn cynyddu lledaeniad y fflamau ac yn rhoddi aelodau'r cyhoedd mewn risg pe digwydd i dân dorri allan. 'Roedd hefyd yn gorchuddio'r systemau darganfyddiadau tân a'r goleuadau argyfwng. Cadarnhaodd deilydd y drwydded y byddai'n ei dynnu i lawr.
d) Nid yw system larwm tân yr eiddo'n gweithio ac nid oes tystiolaeth o gofnod gwasanaeth. Mae hyn yn rhoddi aelodau'r cyhoedd mewn risg. Mae hyn yn dorcyfraith difrifol o'r gorchymyn ac awgrymir iddo gael ei atgyweirio ar unwaith.
dd) Pan ofynnwyd os y gallai atgyweirio'r system cyn agor dydd Iau, fe hysbysodd nad oedd yn bosibl yn ariannol iddo ei gael wedi ei atgyweirio ac y byddai'n well ganddo i gau hyd nes y byddai wedi ei atgyweirio. Byddai'n drafftio llythyr i'w roddi i'r Gwasanaeth Tân.
e) Dim cofnod o wasanaeth o oleuadau argyfwng yr eiddo ond 'roedd tystiolaeth o brawf achlysur. Pan ofynnwyd am eu profi yn ystod yr archwiliad, 'roeddynt yn gweithio. Byddai'n fuddiol i gynnal a chadw'r goleuadau argyfwng uwchben y drws tân ar y llawr gwaelod yn rhan y bar. Byddai hyn yn argymhelliad yn yr adroddiad.
f) Dim darganfyddiad na goleuadau argyfwng ar y llawr cyntaf na'r ail i'r man aros preifat ac 'roedd hyn yn rhoddi deilydd y drwydded mewn risg difrifol fel y person perthnasol dan y Gorchymyn. Bydd angen trafod hyn gyda'r rheolwr llinell.
ff) Mae'r llwybr i'r fynedfa tân yn rhan y bar ar y llawr gwaelod yn rhannol wedi ei gyfyngu gyda lleoliad cadeiriau a chanfuwyd ychydig o annibendod tu allan i'r drws tân. Mae hyn yn rhoddi aelodau'r cyhoedd mewn risg.
g) Drws tân y gegin yn dal yn y ffram drws a drws cefn y gegin wedi malu ac yn hongian ar un colyn.
ng) Byddai'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i'r rhan golchi poteli a.y. oherwydd diffyg diogelwch ar y drws ac 'roedd posibilrwydd i'r cyhoedd gael mynediad i ran y to fflat yn y cefn. 'Roedd hyn yn eu rhoddi mewn risg o ddisgyn o uchder.

‘Roedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub felly bryderon difrifol am reolaeth diogelwch tân gwael ar yr eiddo hwn. Deellir i ddeilydd y drwydded anfon llythyr at y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cadarnhau y bydd y busnes ar gau o 4 Mehefin 2013 hyd nes y byddai’r holl ofynion tân wedi eu cario allan.

Mewn ymateb i rhai o’r pwyntiau uchod, nododd deilydd y drwydded y sylwadau canlynol –

- Ar rhai achlysuron pan alwyd yr heddlu, ‘roedd y bar wedi cau pan achoswyd rhai o’r problemau.
- Mai’r unig amser lle ‘roedd y sŵn wedi bod yn uchel yn ystod oriau agor y busnes oedd pan gynhaliwyd nosweithiau arbennig ac y gosodwyd system monitro sŵn yn eiddo’r gwrthwynebydd ar yr adegau hynny. Yn dilyn cyfarfod gyda’r Swyddog Iechyd Amgylchedd fe ataliwyd y nosweithiau hyn.
- Ymddiheurodd i’r gwrthwynebydd am achosi problemau iddo.

Ymhelaethodd y Swyddog Iechyd Amgylchedd ar yr achlysuron o broblemau sŵn rhwng Gorffennaf 2012 hyd at y presennol. Nododd, ers paratoi’r adroddiad, derbyniwyd ffurflen monitro sŵn pellach gan y cwynydd yn datgan bod y problemau sŵn yn parhau o’r eiddo ers diwedd Ebrill hyd at 26 Mai 2013. O ystyried bod hanes o sŵn adloniant uchel yn cael ei greu gan yr eiddo hwn ac y derbyniwyd cwyn newydd am sŵn adloniant ynghyd â’r dystiolaeth gan yr heddlu, fe gefnogir eu cais am adolygu’r drwydded ac y dylid atal y drwydded am gyfnod. Mewn perthynas â’r llythyr a dderbyniwyd gan gyfreithiwr deilydd y drwydded ac yn benodol y cyfeiriad ynddo at sŵn cerddoriaeth uchel ar ôl yr oriau trwyddedig, ‘roedd y swyddog o’r farn nad oedd y dehongliad hwn yn gywir gan y sylwyd bod yn sŵn yn uchel yn ystod yr oriau trwyddedig yn ogystal. Nododd hefyd i’r cyfreithiwr roddi barn gyfreithiol am niwsans cyhoeddus ac mae niwsans o’r fath yn un o gonglfeini trwyddedu. Fe ddiffinnir niwsans cyhoeddus fel cyfraith.

Manteisiodd y gwrthwynebydd oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu’r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi’n benodol y pwyntiau canlynol –

- Ei fod yn byw drws nesaf i’r eiddo a bod problemau yn deillio ohono ers oddeutu pedair blynedd gyda sŵn cerddoriaeth uchel, nifer fawr o bobl yn yfed yn y stryd a’r llanastr a adewir ar y palmant.
- Y gosodwyd system monitro sŵn yn ei eiddo ym Medi 2012 gan Adran Gwarchod y Cyhoedd a bu i’r sŵn gael ei fonitro ar sawl achlysur.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau’r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

O ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ‘roedd yr aelodau o’r farn y dylid caniatau’r adolygiad am y rhesymau canlynol –

a) Clywodd yr is-bwyllgor dystiolaeth i’r eiddo fethu tri prawf pryniant yn olynol sef ar 19 Mai, 7 Gorffennaf a 6 Hydref 2012. Ystyrir y toriadau hyn yn faterion difrifol iawn o ystyried i ddeilydd y drwydded gael rhybudd ar ôl y ddau doriad cyntaf ac nid oes tystiolaeth bod polisi “Her 25” yn cael ei weithredu. Er y cydnabu’r is-bwyllgor bod prawf pryniant llwyddiannus wedi digwydd ym Mawrth 2013, mynegir pryder sylweddol ynglyn â’r toriadau yn 2012 gan nodi bod y toriadau hynny wedi arwain at gollfarn yn y Llys Ynadon.

b) Mae’r prawf pryniant methedig yn gwbl groes i’r amcan trwyddedu o ddiogelu plant rhag niwed.

c) Mae’r adeilad gyda diffygion sylweddol o ran diogelwch tân a bod hynny hefyd yn tanseilio’r amcan trwyddedu o ddiogelwch cyhoeddus.

ch) Nid yw’r is-bwyllgor yn gwybod ar sail y tystiolaeth a dderbyniwyd a oedd y digwyddiadau o sŵn ynglyn â’r eiddo fel mater o gyfraith yn cyfrif fel niwsans cyhoeddus.

d) Fodd bynnag, mae'r is-bwyllgor yn fodlon bod tanseiliad o'r amcanion trwyddedu o warchod plant rhag niwed a gwarchod diogelwch cyhoeddus yn cyfiawnhau atal y drwydded am gyfnod o chwech wythnos.

**PENDERFYNWYD**
**a) Caniatau'r adolygiad ac atal y drwydded am gyfnod o chwech wythnos.**
**b) Bod deilydd y drwydded yn gosod cyfyngiad sŵn ar yr eiddo.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 3.45pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 04.07.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Annwen Hughes, Angela Russell

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Gwyn Parry Williams a Lowri H. Evans (Swyddogion Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – THE HARP INN, 80-82, STRYD FAWR, BANGOR

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran The Harp Inn, 80-82, Stryd Fawr, Bangor:** Mrs Bethan Brown (Deilydd y drwydded) a Mr James Brown

Ymddiheuriadau: Ms Ffion Muscroft (Swyddog Iechyd Amgylchedd) a Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran The Harp Inn, 80-82, Stryd Fawr, Bangor i wyro'r drwydded eiddo i ganiatau ymestyniad o awr ychwanegol, nos Iau, hyd at, ac yn cynnwys nos Sadwrn ar gyfer y gweithgareddau trwyddedig o gyflenwi alcohol a chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio tan 02.00. Gofynnir hefyd am ymestyn yr oriau cau ar y diwrnodau hyn i 02.30. Rhoddodd fanylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig. Yn ychwanegol i'r cais am ymestyn yr oriau, gofynnir am ganiatâd i ddileu rhai o'r amodau yn Atodiad 2 o'r Drwydded Gyfredol sy'n cyd-fynd â'r Atodlen Weithredu ar gyfer y drwydded fel a ganlyn –
a) Archwilio'r toiledau'n rheolaidd.
b) Cael cytundeb difa pla mewn lle.
c) Gwaredu gwydrau safonol tros gyfnod gan eu newid am wydrau gwydn.
ch) Caniatau plant yn yr ystafell fwyta hyd at 19.00 yn unig.
d) Darparu ystafell di-fwg ar gyfer teuluoedd.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, ni dderbyniwyd sylwadau gan yr aelod lleol. 'Roedd Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais oherwydd pryder am leoliad yr eiddo trwyddedig yn agos i eiddo preswyl, ac yn benodol yn agos i anheddau ar gyfer pobl hŷn. Nid oes gwrthwynebiad i'r cais gan yr heddlu, ond argymhellir cynnwys amodau ar y drwydded yn dilyn cytundeb â'r ymgeisydd mewn perthynas â teledu cylch cyfyng, goruchwylwyr drysau ac aelodaeth o'r Cynllun Gwarchod Tafarndai. Nid oes gwrthwynebiad ychwaith gan yr Adran Gwarchod y Cyhoedd, ond nodir y derbyniwyd un cwyn am sŵn yn 2012 mewn perthynas â'r eiddo, er nad oedd tystiolaeth pendant i gefnogi'r honiadau. Argymhellir amodau sŵn i'w cynnwys ar y drwydded eiddo, fel ar y drwydded gyfredol.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.

ii. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau.

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau.

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd deilydd y drwydded ei bod yn cytuno â'r amodau a argymhellir gan yr Heddlu ac Adran Gwarchod y Cyhoedd. Nododd bod y system teledu cylch cyfyng eisoes wedi ei osod ar yr eiddo ac 'roedd hefyd yn aelod o Gynllun Gwarchod Tafarndai. Cyfeiriodd at y ffaith mai'r heddlu a awgrymodd iddi gyflwyno'r cais dan sylw.

Nid oedd cynrychiolydd o Gyngor Dinas Bangor wedi presennoli ei hun yn y cyfarfod i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

'Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatau'r cais oherwydd ei fod ynghyd ag amodau arfaethedig yr Heddlu a Gwarchod y Cyhoedd yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

**PENDERFYNWYD**
**i) Caniatau gwyro trwydded eiddo The Harp Inn, 80-82, Stryd Fawr, Bangor fel a ganlyn –**
**a) Caniatau cyflenwi alcohol dan baragraff M rhwng 10.00 a 01.00, dydd Llun i ddydd Mercher, rhwng 10.00 a 02.00, dydd Iau i ddydd Sadwrn a rhwng 11.00 a 23.00 ar ddydd Sul.**
**b) Caniatau cerddoriaeth wedi ei recordio dan baragraff F rhwng 11.00 a 01.00, dydd Llun i ddydd Mercher, rhwng 11.00 a 02.00 dydd Iau i ddydd Sadwrn a rhwng 11.00 a 22.30 ar ddydd Sul.**
**c) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd dan baragraff O rhwng 10.00 a 01.00, dydd Llun i ddydd Mercher, rhwng 10.00 a 02.30 dydd Iau i ddydd Sadwrn a rhwng 11.00 a 23.00 ar ddydd Sul.**
**ch) Newid amodau'r drwydded yn unol â'r hyn a nodir ym mharagraff P o'r cais.**
**d) Bod system teledu cylch cyfyng ddigidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.**
**dd) Yn achos tu fewn i'r eiddo, bydd digon o gamerau i recordio delweddau o'r holl le sydd ar gael i'r cyhoedd, ar wahân i'r toiledau.**
**e) Dylai goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sy'n yr adeilad.**
**f) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.**
**ff) Pan fydd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau, bydd y delweddau'n cael eu rhoddi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddai'r busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.**
**g) Rhaid bod o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawrlwytho tystiolaeth ar gais**

**yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.**
**ng) Bod arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i dynnu sylw bod system teledu cylch cyfyng yn weithredol.**
**h) Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio.**
**I) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir, gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi, os yn berthnasol.**
**l) Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Ar ôl cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**
**ll) Bydd yr eiddo hwn yn cyflogi o leiaf un goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) o 21.00 hyd nes y byddai'r busnes yn cau ar nosweithiau Iau, Gwener a Sadwrn, os nad yw'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gan yr heddlu nad oes angen cyflogi staff o'r fath ar y nosweithiau hyn, a bod y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig a'r heddlu yn cytuno nad oes angen.**
**m) Bydd yr eiddo yn aelod o'r Cynllun Gwarchod Tafarndai a bydd cynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd y cynllun ac yn cymryd rhan yn holl fentrau'r cynllun. Bydd yr eiddo'n cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau Gwarchod Tafarndai, gan gynnwys ufuddhau i Orchmynion Gwahardd mewn perthynas ag unigolion.**
**n) Gosod yr amodau canlynol a argymhellir gan Swyddog Gwarchod y Cyhoedd –**
**i) Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 15 munud na'r lefel LAeq 15 munud yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125Hz o fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo drwyddedig. I bwrpas yr amod hwn, diffinnir LAeq yn BS4142:1997.**
**ii) Er mwyn arbed sŵn a dirgryniant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant.**
**iii) Os, wedi cyhoeddi'r drwydded hon, bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod (i), bydd perchennog yr eiddo yn gwneud y canlynol –**

- **Gwneud unrhyw waith ynysu/arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cydymffurfio ac amod sŵn a/neu**
- **Gosod dyfais rheoli sŵn yn yr ystafell/oedd lle cynhelir yr adloniant. Bydd y ddyfais wedi ei sefydlu i dorri cyflenwad trydan unrhyw system sain neu wrthsefyll cynnydd mewn lefel sŵn uwchlaw'r hyn a sefydlwyd fel uchafswm caniataeedig.**

**iv) Unwaith bydd lefel ar ddyfais rheoli sŵn yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Llygredd, Cyngor Gwynedd.**
**v) Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng 22.00 a 08.00. Cedwir y poteli o fewn cwrtil yr eiddo mewn sgip neu fin gyda chaead.**
**vi) Gosodir arwyddion clir a dealladwy wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sy'n gadael yr adeilad ystyried trigolion lleol, yn arbennig yn eu hannog i beidio â gweiddi, clepian drysau cerbydau na chanu cyrn cerbydau.**
**vii) Mae'n ddyletswydd i ddeilydd trwydded personol yr eiddo, y goruchwyliwr eiddo dynodedig neu'r goruchwyliwr drysau, i fonitro ymddygiad yr unigolion sy'n gadael yr eiddo i ysmygu a'u hatgoffa o'u cyfrifoldeb cyhoeddus pan yn angenrheidiol.**
**b) Anfon llythyr at Gyngor Dinas Bangor yn datgan siom nad oedd cynrychiolydd wedi presennoli ei hun yn y cyfarfod, gan dynnu sylw mai oherwydd eu gwrthwynebiad hwy y bu'n rhaid cynnal y gwrandawiad.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.
Materion ychwanegol

**a) Cais am drwydded eiddo – Toft's Dining Room, Stryd Fawr, Abersoch**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu y derbyniwyd cais am drwydded eiddo ar ran yr eiddo uchod i werthu alcohol yn y bwyty. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan Gyngor Cymuned Llanengan na'r Aelod Lleol ond derbyniwyd un gwrthwynebiad ar sail materion cynllunio a thrafodwyd y materion hyn gyda'r Swyddogion Cynllunio ac 'roeddynt yn cytuno nad oedd unrhyw sail na phryderon iddynt fel a nodwyd gan y gwrthwynebydd. Yn wyneb hyn, trafodwyd y mater â'r Aelod Lleol gan egluro y gellid caniatau'r cais gan nad oedd unrhyw sail i'r gwrthwynebiad oherwydd nad yw materion cynllunio yn berthnasol i faterion trwyddedu. Ar y sail hwn, penderfynodd y swyddogion perthnasol ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i gadarnhad yr is-bwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r camau a gymerwyd gan y swyddogion yn caniatau'r cais am drwydded eiddo.**

**b) Cais am drwydded eiddo – Penrhyn Stores, Fairbourne**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu y derbyniwyd cais am drwydded eiddo ar ran yr eiddo uchod i werthu alcohol yn yr eiddo a ddefnyddir fel arcêd difyrrwch a caffi bychan. Derbyniwyd pump gwrthwynebiad i'r cais gan gynnwys yr Aelod Lleol ar y sail bod yna ddigon o lefydd i werthu alcohol yn y pentref. O ran materion trwyddedu nid yw'r gwrthwynebiad hwn yn ddigonol i beidio â chaniatau trwydded. Cynhaliwyd cyfarfod cymodi ar 13 Mehefin 2013 gyda'r gwrthwynebwyr a'r ymgeisydd pryd y cytunodd pedwar o'r gwrthwynebwyr i dynnu eu gwrthwynebiad yn ôl oherwydd i'r ymgeisydd gytuno i leihau'r oriau o awr gan y byddai'n fwy addas ar gyfer y lleoliad. Ar y sail hwn, penderfynodd y swyddogion perthnasol ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i gadarnhad yr is-bwyllgor hwn. Fodd bynnag, mae un gwrthwynebydd yn parhau'n anhapus ynglyn â chaniatau'r drwydded ond nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod cymodi ac nid oedd sail y gwrthwynebiad yn berthnasol i faterion trwyddedu.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r camau a gymerwyd gan y swyddogion yn caniatau'r cais am drwydded eiddo.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 1.40pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 31.07.13

**Yn bresennol:** Cyng Eryl Jones-Williams (Cadeirydd), Cyng Ann Williams, Cyng Elfed Williams

**Hefyd yn bresennol:** Mr Gwyn Hughes (Clerc Dinas Bangor), PS483 Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru), Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru), Sïon Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), a Lowri H. Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – Zam Zam Foods, 308, STRYD FAWR, BANGOR**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:** Ar ran Zam Zam Foods, 308, Stryd Fawr, Bangor**:** Mr Khaliq Noor (Deilydd y drwydded)

**Ymddiheuriadau**: Dim i'w nodi

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais Zam Zam Foods, 308, Stryd Fawr, Bangor i wyro'r drwydded eiddo i ganiatáu ymestyniad o awr a hanner ychwanegol, saith diwrnod yr wythnos ar gyfer gweithgaredd trwyddedig o ddarparu lluniaeth hwyr y nos. Gofynnir hefyd am awr ychwanegol i hyn ar noswyl y Nadolig a nos Calan. Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiad i'r cais gan berchennog busnes cyfagos a Chyngor Dinas Bangor. Yn wreiddiol, cyflwynwyd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru hefyd, ond yn dilyn trafodaeth gyda'r ymgeisydd, fe gafwyd cytundeb yn ddarostyngedig i amodau penodol. Ni dderbyniwyd sylwadau gan yr Aelod Lleol.

Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais oherwydd pryder bod yr eiddo trwyddedig yn agos i dai preswyl gyda nifer o drigolion hŷn yn byw ynddynt. Gwrthwynebwyd hefyd ar sail atal trosedd ac anrhefn, cynnydd tebygol mewn sbwriel ar y stryd a chynnydd mewn pobl a cheir yn ymgynull yn yr ardal yn hwyr yn y nos a chynnar y bore. Roedd gwrthwynebiad gan berchennog y busnes cyfagos yn adlewyrchu'r un pryderon.

Yr Heddlu yn datgan bod yr ymgeisydd wedi cytuno i gyfyngu oriau gweithgaredd trwyddedig i 3:00am bore Sul hyd ddydd Iau a 3:30 nos Wener a nos Sadwrn. Mae cytundeb yr Heddlu i gymeradwyo'r cais hefyd yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd gytuno i'r amodau ychwanegol gyda phwyslais arbennig ar ddau o'r amodau hynny, sef,

a) mewn perthynas â theledu cylch cyfyng, dylai deilydd y drwydded sicrhau bod, o leiaf un aelod staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ac ar gael, i gyflwyno a llawr lwytho tystiolaeth ar gais yr Heddlu neu swyddog awdurdodedig yn ystod oriau agor y siop.

b) dylai deilydd y drwydded gyflogi goruchwylwr drysau ar gyfer yr awr olaf o weithgaredd trwyddedig ar nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.

ii. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau.

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau.

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd deilydd y drwydded ei fod yn cytuno â'r amodau a argymhellir gan yr Heddlu. Cafwyd cais ychwnaegol yr ymgeisydd i barhau i agor hyd at 5am fel siop groser. Cyflwynodd lythyr gan yr Adran Rheoleiddio yn amlygu ei hawl i wneud hyn oherwydd mesuriad troedfedd sgwâr ei siop. Argymhelliad yr Heddlu yw y dylai oriau agor y siop adlewyrchu oriau a nodir ar y drwydded. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch i'r holl fusnesau.

Nododd y Cadeirydd bod rhaid canolbwyntio ar y drefn trwyddedu yma ac nid ar amodau cynllunio. Cais i ymestyn oriau agor Zam Zam Foods i ddarparu lluniaeth hwyr y nos sydd gerbron y pwyllgor.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD**
**Caniatáu gwyro trwydded eiddo Zam Zam Foods, 308, Stryd Fawr, Bangor fel a ganlyn:**

**Caniatáu gwerthu lluniaeth hwyr y nos (paragraff I) rhwng 23.00 a 03.00 y diwrnod canlynol o ddydd Sul i ddydd Iau, a rhwng 23.00 a 03:30 y diwrnod canlynol ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn. Caniatáu awr ychwanegol i'r amseroedd hyn ar noswyl y Nadolig a nos Calan.**

**Caniatáu i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd (paragraff L) rhwng 23.00 a 03.00 y diwrnod canlynol o ddydd Sul i ddydd Iau, a rhwng 23.00 a 03:30 y diwrnod canlynol ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn. Caniatáu awr ychwanegol i'r amseroedd hyn ar noswyl y Nadolig a nos Calan**

**ii ) Derbyn holl argymhellion yr Heddlu fel ag y rhestrwyd isod:**

a) **Bod system teledu cylch cyfyng digidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.**
b) **Yn achos tu fewn i'r eiddo, bydd digon o gamerâu i recordio delweddau o'r holl le sydd ar gael i'r cyhoedd, ar wahân i'r toiledau.**
c) **Dylai goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sy yn yr adeilad.**

d) **Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.**
e) **Pan fydd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau, bydd y delweddau'n cael eu rhoddi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddai'r busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.**
f) **Rhaid bod o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.**
g) **Bod arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i dynnu sylw bod system teledu cylch cyfyng yn weithredol.**
h) **Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio.**
i) **Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir, gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi, os yn berthnasol.**
j) **Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Ar ôl cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**
k) **Bydd yr eiddo hwn yn cyflogi o leiaf un goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) ar gyfer yr awr olaf o weithgarwch trwyddedig ar nosweithiau Iau, Gwener a Sadwrn.**

**iii) Yr Is Bwyllgor Trwyddedu yn cynghori deilydd y drwydded i gysylltu gyda'r Adran Rheoleiddio ynglŷn â gweithredu fel siop groser. Angen sicrhau bod gwahaniaethau trwyddedu a chynllunio yn cael eu hamlygu i'r ymgeisydd ac y dylai gael sgwrs gyda'i gyfreithiwr.**

**iv) Ni all yr Is-Bwyllgor Trwyddedu gyfiawnhau bod y siop ar agor rhwng 3:00 a 5:00am fore Sul hyd ddydd Iau, a rhwng 3:30 a 5:00am dydd Gwener i ddydd Sadwrn - 1 awr i 1½awr tu allan i oriau agor y drwydded o ddarparu bwyd poeth.**

**v) Bydd deilydd y drwydded yn gosod arwyddion clir a dealladwy tu mewn a thu allan i'r siop yn gofyn yn foesol i gwsmeriaid beidio ymgynnull tu mewn na thu allan i'r siop.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.20am a daeth i ben am 12:45pm

4 September 2013

For the attention of Mrs C Pritchard

Head of Administration and Public Protection
Cyngor Gwynedd
Swyddfa’r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd

Dear Mrs Pritchard

**Licensing Act 2003 – Variation of Premises Licence,**

Can you please take these observations to the next Central Licensing Committee.

The City Council were anxious to let the Licensing Sub-Committee know that the residents of Bangor feel deeply let down by its recent decisions to allow late night opening of takeaway establishment in the City against the advice of the Police and the objections of the Bangor City Council. Those bad decisions will have inevitable consequences for the local residents, shops and other commercial enterprises in increased noise, disturbance, litter generation, anti-social behaviour and crime and disorder. It will inevitably increase the burden on public services and public expenditure, including the Police, Gwynedd Council’s street cleaning, litter and refuse collection service and services provided by the City of Bangor Council. It also undermines the considerable efforts made by Gwynedd Council, the Welsh Government, Bangor University, the City Council and other agencies over the past two years to improve the image of the City.

Yours sincerely,

Gwyn Hughes
**Town Clerk**